**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod**

**Adferiad yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar ofalu**

**Noddir gan Siân Gwenllian AS**
**18 Chwefror 2022**
**Zoom, 11:30 – 12:45**

***Yn bresennol:***
*Sian Gwenllian AS (Cadeirydd)*
*Heledd Fychan AS*
*Delyth Jewell AS*
*Jenny Rathbone AS*
*Carolyn Thomas AS*
*Joyce Watson AS*
*Sioned Williams AS*
*Susan Himmelweit, Y Brifysgol Agored (Siaradwr)*
*Hade Turkmen, Chwarae Teg*
*Tomos Evans, Chwarae Teg*
*Wanjiku Mbugua, Bawso*
*Jordan Brewer, Cymorth i Ferched Cymru*
*Sophie Weeks, Cymorth i Ferched Cymru*
*Vicky Lang, Cymorth i Ferched Cymru*
*Sarah Rees, Oxfam Cymru*
*Lisa Isherwood, Soroptimydd*
*Megan Thomas, Anabledd Cymru*
*Jon Day, Gofal Cymdeithasol Cymru*
*Alison Parken, Ysgol Fusnes Caerdydd*
*Rhianydd Williams, TUC*
*Jane Fenton-May, Menywod yn Ewrop (Cymru)*
*Kirsty Fox, Camlas*
*Catherine Fookes, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (WEN Cymru)*
*Evelyn James, WEN Cymru*
*Jessica Laimann, WEN Cymru*
*Rose Widlake, WEN Cymru*
*Anouk Smith, WEN Cymru*
*Suzy Davies, Aelod Bwrdd, WEN Cymru*

***Ymddiheuriadau:***

*Sarah Murphy AS*
*Natasha Ashgar AS*
*Llyr Gruffydd AS*
*Jackie Jones, Menywod yn Ewrop (Cymru)*
*Abi Thomas, Plaid Cymru*
*Debbie Shaffer, Triniaeth Deg i Fenywod Cymru (FTWW)*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso, Ymddiheuriadau, Cyflwyniad** – *Cadeirydd*<br><br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod. Dywedodd y Cadeirydd mai diben y cyfarfod oedd trafod y posibilrwydd o sicrhau adferiad a arweinir gan ofal yng Nghymru. |

| | |
|---|---|
| 2 | **Manteision sicrhau adferiad o’r pandemig sy'n canolbwyntio ar ofal –** Susan Himmelweit, Athro Emeritws, Y Brifysgol Agored<br><br>Dywedodd yr Athro Himmelweit fod y pandemig wedi dangos mai’r sector gofal, gan gynnwys gofal â thâl a gofal di-dâl ar gyfer plant ac oedolion, yw asgwrn cefn ein cymdeithas. Ar yr un pryd, fodd bynnag, ymddengys fod angen dybryd i ddiwygio’r sector gofal. Mae darpariaeth yn gyfyngedig ym mhob rhan o’r DU. Mae cyflogau isel a chyflogaeth ansicr yn nodweddion o’r sector hwn. Mae’r gweithlu yn cynnwys menywod yn bennaf, yn enwedig menywod o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ac mae trosiant staff yn uchel. Mae’r mantra sy’n sail i fodelau busnes preifat, sef torri costau a sicrhau effeithlonrwydd, yn aml yn hepgor yr uchelgais i ddarparu gofal o ansawdd uchel, ac mae hyn yn bygwth hyfywedd darparwyr gofal plant a gofal cymdeithasol.<br><br>Mae angen cydnabod gofal fel rhan o’n seilwaith ffurfiol, sef rhywbeth sydd o fudd i'r gymdeithas gyfan ac sydd felly angen ei ariannu'n gyhoeddus. Ni fydd cynnydd o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn parhau i gael ei wneud heb ddiwygio’r sector gofal. Ceir nifer o fuddion drwy fuddsoddi yn yr economi ofalu:<br>• Mae cymdeithas lle ceir gofal da yn fwy gwydn<br>• Mae’n rhan o’r economi lesiant, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol<br>• Mae’n adlewyrchu egwyddorion craidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)<br>• Byddai gwella llesiant cyffredinol drwy fuddsoddiadau tymor byr yn lleihau costau hirdymor<br>Dylai’r buddsoddiadau hyn ddigwydd drwy fuddsoddiadau yn y gweithlu. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn darparu strwythur hyfforddiant a gyrfa sy'n debyg i’r hyn a welir yn y GIG.<br><br>Mae ymchwil gan yr Athro Himmelweit a Grŵp Cyllideb Menywod y DU yn dangos bod sicrhau adferiad a arweinir gan ofal yn ffordd hynod effeithiol o ysgogi’r economi. O gymharu â buddsoddiadau tebyg mewn adeiladu, byddai buddsoddiadau mewn gofal yn cynhyrchu nifer llawer uwch o swyddi i fenywod ac yn creu nifer tebyg o swyddi i ddynion. Mae’n cynyddu nid yn unig y galw am lafur, ond hefyd y cyflenwad llafur. Drwy wella argaeledd gwasanaethau gofal, byddai pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu di-dâl y byddai'n well ganddynt weithio, yn gallu cael mynediad at gyflogaeth.<br><br>Mae buddsoddi mewn gofal hefyd yn weithgarwch gwyrdd, sy’n gyson â’r newid i economi carbon isel. Mae hyn oherwydd bod swyddi gofal yn cynhyrchu cyfran fechan yn unig o’r allyriadau a gynhyrchir gan swyddi presennol ar gyfartaledd (rhwng 6% a 13%). Maent hefyd yn defnyddio llawer llai o fewnbynnau sydd wedi’u mewnforio na swyddi adeiladu, er enghraifft. Yn y tymor hir, byddai economi â mwy o bobl sy’n cael eu cyflogi ym maes gofal yn cynhyrchu llai o allyriadau. Mae’n debygol bod y buddion cyflogaeth cymharol hyn hyd yn oed yn uwch yng Nghymru o gymharu â’r DU, gan fod y lluosydd cyflogaeth ar gyfer adeiladu yn debygol o fod yn is, oherwydd bod Cymru yn economi lai ac yn economi sy’n agored iawn i weddill y DU. |

| | |
|---|---|
| | Er mwyn cael amcangyfrif mwy manwl gywir o’r darlun hwn, byddai gofyn cael tablau mewnbwn-allbwn cyfredol, gan fod y ffigurau diweddaraf a ddarparwyd gan Uned Ymchwil Economi Cymru yn deillio o 2007. Nododd adroddiad Prif Economegydd Cymru ar gyfer 2020 fod angen tablau allbwn-mewnbwn newydd i gyfrifo effeithiau llawn gwahanol ddiwydiannau ar yr amgylchedd. Byddai hyn hefyd yn ddefnyddiol o ran deall yn well effaith cymharol y sector gofal o ran allyriadau.<br><br>Yn ogystal â’r buddion hyn o ran llesiant, cyflogaeth a chynaliadwyedd, byddai buddsoddiadau mewn gofal hefyd yn fuddiol o safbwynt cydraddoldeb rhwng y rhywiau, gan y byddent yn lleihau’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac yn herio ystrydebau ynghylch rhywedd a gofal. |
| **3** | **Trafodaeth a chwestiynau gan y rhai a oedd yn bresennol**<br><br>Diolchodd y Cadeirydd ac eraill a oedd yn bresennol i'r Athro Himmelweit am ei chyflwyniad craff. Awgrymwyd y dylai'r grŵp trawsbleidiol ysgrifennu at yr uned ymchwil berthnasol yn Llywodraeth Cymru i’w hannog i gynhyrchu tablau mewnbwn-allbwn cyfredol.<br><br>Codwyd nifer o sylwadau a chwestiynau mewn ymateb i'r cyflwyniad. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cynghorau fel cyflogwyr yn y sector gofal, yr orddibyniaeth ar ofal anffurfiol, y rhwystrau sy’n gallu atal pobl anabl rhag cael mynediad at ofal, ac anghenion gofalwyr. Yn ôl yr Athro Himmelweit, mewn economi ofalu ag adnoddau priodol, byddai gofal di-dâl yn ddewis, oherwydd gallai perthnasau gael sicrwydd y byddai eu hanwyliaid yn cael gofal priodol.<br><br>Pwysleisiodd Rhianydd Williams (TUC) y ffaith bod tystiolaeth yn awgrymu bod dynion sy’n ymuno â'r proffesiwn gofalu yn aml yn datblygu eu gyrfaoedd llawer yn gynt na'u cydweithwyr benywaidd. Mae’n rhaid dysgu gwersi o’r sefyllfa hon er mwyn deall sut y byddai proffesiynoli'r sector gofal yn deg.<br><br>Esboniodd Wanjiku Mbugua (Bawso) fod COVID wedi cael yr effaith waethaf ar fenywod o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y sector gofal. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y nyrsys a gofalwyr (menywod yn bennaf) sy’n cael eu recriwtio o dramor. Mae gan nifer o’r gweithwyr hyn gontractau tair blynedd nad ydynt yn gallu rhoi terfyn arnynt hyd yn oed pan fyddant yn wynebu gwahaniaethu ac yn cael eu cam-drin. Mae’r menywod hyn bellach yn wynebu heriau enfawr yn sgil yr argyfwng costau byw, gan fod eu cyflogau wedi bod yn sefydlog am nifer o flynyddoedd. Tynnodd Wanjiku sylw pellach at yr heriau sy’n wynebu menywod nad ydynt yn destun unrhyw hawl i arian cyhoeddus, ac felly nad ydynt yn gymwys i gael unrhyw gymorth gofal plant.<br><br>Yn ôl Hade Turkmen (Chwarae Teg), er bod y sector gofal yn gymharol wyrdd, nid yw’n cael ei gyfrif felly. Er enghraifft, nid yw’n gymwys i gael ei gynnwys mewn cynlluniau ar gyfer yr economi werdd. Mae’n bwysig herio'r canfyddiad hwn a sicrhau bod gofal yn cael ei gydnabod fel sector gwyrdd. |

| | |
|---|---|
| | O ran yr argyfwng costau byw, dywedodd Catherine Fookes (WEN Cymru) y byddai peidio â buddsoddi mewn gofal ar hyn o bryd yn golygu ein bod yn colli cyfle hollbwysig o ran cael menywod i mewn i waith a chodi safonau byw y bobl dlotaf yn ein cymdeithas. Dywedodd yr Athro Himmelweit fod lefel y gwasanaethau cyhoeddus sydd ar gael yn ffactor sy'n gwneud cyfraniad pwysig at yr argyfwng hwn, gan fod yn rhaid i bobl wario arian ar wasanaethau nad ydynt ar gael yn gyhoeddus. Cytunodd y byddai buddsoddiadau mewn gofal yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'r rhai mwyaf difreintiedig yn y farchnad lafur.<br><br>Dywedodd Sioned Williams AS fod yr argyfwng gofal cymdeithasol yn un o brif flaenoriaethau llywodraeth leol. Mae'r trafferthion enfawr a welwyd wrth geisio recriwtio yn dangos nad codiadau cyflog yn unig sydd eu hangen. Mae'n rhaid newid y diwylliant hefyd. Mae angen dysgu gwersi yn sgil y pandemig a gwerthfawrogi gofal fel proffesiwn, yn hytrach na cheisio dychwelyd i'r drefn arferol. Dywedodd yr Athro Himmelweit fod cyfreithiau a gwariant cyhoeddus yn gyfryngau effeithiol ar gyfer sicrhau'r newid diwylliannol hwnnw, gan fod newidiadau mewn polisïau yn cael effaith ar ddiwylliant.<br><br>Dywedodd Jenny Rathbone AS y byddai'n codi'r mater hwn yn y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Mae sylweddoli pwysigrwydd buddsoddi mewn pobl, nid adeiladau, ar hyn o bryd yn hanfodol. |
| **4** | **Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Grŵp Menywod yn Ewrop (Cymru) –** Jackie Jones<br><br>Darparodd Jackie Jones nifer o ddiweddariadau ynghylch rhywedd a'r UE / Ewrop, gan gynnwys yr eitemau a ganlyn:<br>• Mae Ffrainc, sydd wedi cymryd yr awenau llywyddu yn ddiweddar, wedi datgan bod llofnodi a chadarnhau Confensiwn Istanbul ar draws yr UE yn flaenoriaeth allweddol. Mae'r DU wedi llofnodi'r Confensiwn ond nid yw wedi'i gadarnhau. Mae'r blaenoriaethau eraill yn cynnwys: Strategaeth Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau 2020-25; Cyfarwyddeb newydd gan yr UE i wneud trais ar sail rhywedd yn drosedd ar lefel yr UE; Strategaeth Cydraddoldeb LGBTIQ newydd; Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth yr UE; Strategaeth ar gyfer Hawliau Pobl Anabl;<br>• Gweithio tuag at Gyfarwyddeb gan yr UE ar sicrhau cydbwysedd o ran rhywedd ar fyrddau cwmnïau; a mesurau rhwymol o ran tryloywder cyflogau. |
| **5** | **Unrhyw fater arall** |
| 6 | *Cloi* |